

# Adolygiad o Reoleiddio a Chynnal Trosolwg o Addysg a Hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru, gyda chyfeiriad arbennig at rôl a swyddogaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Tachwedd 2015

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

# Adolygiad o Reoleiddio a Chynnal Trosolwg o Addysg a Hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru, gyda chyfeiriad arbennig at rôl a swyddogaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

## 1. Cefndir

### 1.1. Cymerwyd yr ystadegau isod o wefan Llywodraeth Cymru:

- Mae gan Gymru boblogaeth o tua £3.1m a 1.3m o gartrefi (*households*) (ystadegau 2013).
  - Y prif ddinasoedd yw Caerdydd (352,700), Abertawe (240,300) a Chasnewydd (146,558).
  - Mae'n wlad gyda thua 2.1m hectar o dir gyda 81% ohono'n dir amaethyddol. Mae'r hyd bywyd disgwyledig (*life expectancy*) yn 78.3 ar gyfer dynion a 82.3 ar gyfer menywod (2011-13).
  - Mae dros 20% o boblogaeth Cymru'n siarad Cymraeg.
  - Mae amaeth a busnesau bach yn ymwneud ag amaeth yn rhan bwysig o'r economi. Mae twristiaeth a hamdden hefyd yn bwysig gyda 9.9m ymweliad dros nos gan bobl o weddill y DU yn 2013.
  - Mae llawer o'r boblogaeth yn gweithio yn y sector gyhoeddus ac mae'r sector amgylcheddol yn un o'r lleiafrif sydd yn tyfu yng Nghymru.
  - Wrth i ddibyniaeth Cymru ar losgi glo leihau a'r pwyslais ar ynni gwyrdd ac ailgylchu godi mae allyriant nwy tai gwydr (*greenhouse gas emissions*) wedi lleihau o 18% rhwng 1990 - 2013.
  - Roedd GVA Gweithle Cymru yn £52.1b yn 2013. (72.2% oedd GVA cyfartalog y DU bryd hynny). Mae Cymru ar ei hôl hi, felly, o ran gweithgarwch economaidd.
  - Mae 10.9% o bobl ifanc 16-18 oed yn y categori NEET sef nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu waith. Mae hyn yn fater o bryder.
  - Roedd ychydig dros 129,000 o bobl wedi cofrestru gyda sefydliad addysg uwch (yn 2013 /2014).
- 1.2. Mae cael poblogaeth a gweithlu gyda sgiliau sylfaenol da, a sgiliau uchel mewn amrywiaeth eang o feysydd yn hollbwysig ar gyfer economi Cymru, ac er mwyn iechyd, lles a llewyrch poblogaeth y wlad. Gwyddom fod gennym broblemau o ran sgiliau sylfaenol, a sgiliau uwch, a bod angen gwneud popeth i ddatblygu cyfleoedd addas ac atyniadol i'n pobl ifanc ar draws ystod o alluoedd a meysydd ac i sicrhau cyfleoedd amrywiol addas ar gyfer dysgu gydol oes.
- 1.3. Cred UCAC ei fod yn drueni mawr bod cyfrifoldeb dros faterion Addysg Bellach ac Addysg Uwch wedi eu symud o bortffolio Addysg i Bortffolio'r Economi. Mae'n gwneud synnwyr bod cydweithio rhwng y ddwy adran ond mae'n bwysig bod Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn cynnig dilyniant i ddisgyblion a myfyrwyr a'i fod yn un gyfundrefn ddilynol a chydlynol. Dylai fod ystyriaeth o edrych yn arbennig ar strategaeth addysg 3-21 oed fel un gyfundrefn, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

## 2. Cyllido Addysg a Hyfforddiant

### Trefniadau Cyllido Addysg Bellach

- 2.1. Rydym yn bryderus am y system bresennol o gyllido addysg ôl-16. Nid yw'n ddigonol ar gyfer anghenion y sector ac mae wedi caniatáu i'r Llywodraeth dorri ymhellach ar gyllideb ôl-16 er mwyn arbed arian. Mae addysg ôl-16 mewn ysgolion wedi dioddef oherwydd y toriadau ond ddim cymaint ag yw addysg mewn colegau addysg bellach.

- 2.2. Mae'r diffyg ariannol hwn wedi arwain at ddiswyddiadau, colli ystod o gyrsiau a chyfleoedd i bobl ifainc. Mae angen sicrhau bod gan Addysg Bellach bot o arian penodol diogel a bod modd osgoi toriadau yn ystod y flwyddyn (*in-year cuts*).
- 2.3. Yn ogystal â hyn, mae toriadau i gyllideb addysg ôl-19 yn golygu ein bod yn colli cyfleoedd pwysig iawn yn y colegau addysg bellach i oedolion dderbyn addysg a hyfforddiant a datblygu sgiliau uwch. Maent felly'n colli cyfleoedd i ymuno â'r gweithlu am y tro cyntaf, i baratoi i ddychwelyd i'r gweithlu ar ôl toriad neu i baratoi am gyflogaeth uwch. Mae addysg oedolion wedi ei erydu'n llwyr ac mae hyn yn golled enfawr i'r boblogaeth a'r economi.
- 2.4. Mae cyfleoedd i oedolion fanteisio ar addysg gymunedol wedi'i ddinistrio dros y blynyddoedd diwethaf, hefyd, ac mae tiwtoriaid wedi colli swyddi neu oriau gwaith ac nid yw darpariaeth addysg gymunedol ddim byd tebyg i beth oedd ar gael tua 8-10 mlynedd yn ôl.
- 2.5. Roedd rôl bwysig gan addysg gymunedol i ddenu pobl nôl i addysg trwy gynnig ystod eang o gyrsiau gan gynnwys cyrsiau llai ffurfiol. Mae'r pwyslais daeth ar gyrsiau wedi'u hachredu wedi eithrio llawer o bobl rhag dilyn y llwybr nôl i addysg. Mae pobl sydd yn teimlo'n anhyderus am eu sgiliau yn annhebygol iawn o gael eu denu'n syth at gwrs sydd wedi'u hachredu ond byddai dechrau gyda chwrs llai ffurfiol, gyda llai o bwysai ar ddeilliannau yn gallu arwain, yn y pendraw, at ddilyn cyrsiau gyda chymwysterau mwy ffurfiol. Mae'r cyfleoedd hyn i ddenu pobl nawr ar goll.
- 2.6. Mae'r toriadau difrifol hyn yn cadw pobl mewn tloedi wrth gyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw i ailgydio mewn addysg. Maent hefyd yn creu tloedi pellach wrth i weithwyr y sector golli gwaith. Dyma'r gweithwyr sydd yn cael eu trin gwaethaf o ran cyflog, ansicrwydd swyddi a natur eu cytundebau.
- 2.7. Erbyn hyn, trwy weithredu'r toriadau difrifol dros y blynyddoedd diwethaf, nid oes gan Gymru bolisi teg o ran sicrhau cynhwysiant a chaniatáu i bobl godi o sefyllfa o amddifadedd a thloedi.
- 2.8. Mae'r llinellau rhwng darparwyr Addysg Bellach, Addysg Gymunedol ac Addysg Uwch weithiau'n aneglur.
- 2.9. O ran addysg gymunedol a darpariaeth gan rhai cyrff trydydd sector gall broblemau codi o ran sicrhau ansawdd i'r myfyrwyr / dyletswydd gofal i'r myfyrwyr. Weithiau bydd corff o'r trydydd sector yn cyflwyno nifer o geisiadau am waith ond petaent yn ennill pob cais ni fyddai'r capasiti ganddynt i ddarparu pob cwrs. Yn y gorffennol mae hyn wedi cael effaith ar ddarpariaeth llywodraeth leol ac Addysg Bellach o ran darparu cyrsiau a chadw arbenigedd yn y tymor canol a'r hir dymor; gellir dadlau hefyd ei fod wedi cael effaith negyddol ar ddatblygu cyrsiau cyfrwng Cymraeg.
- 2.10. Yn eironig, mae hyn yn llai o broblem nawr nag oedd yn y gorffennol oherwydd bod addysg oedolion wedi dioddef cymaint o doriadau a does dim cymaint o gyrsiau'n cael eu darparu.

### 3. Uno sefydliadau

- 3.1. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae llawer o sefydliadau Addysg Bellach wedi uno i greu colegau mawr ac mae buddsoddiad wedi bod mewn adeiladau newydd *state of the art*. Ar hyn o bryd yn lle dros 20 o golegau mae 13 Coleg Addysg Bellach yng Nghymru, 10 ohonyn nhw yn y de, 1 yn y canolbarth a 2 yn y gogledd. Mae mwy nag un campws gan rai o'r colegau.
- 3.2. Mae'r uno wedi creu cyfleodd gwahanol ond mae hefyd wedi creu anawsterau ac un o'r rheini yw'r ffaith bod rhaid i fyfyrwyr deithio ymhellach er mwyn cael mynediad at gwrs o'u dewis. Mae'r ffaith bod rhaid talu am deithio yn rhwystr i fynediad at addysg, nid yn unig i fyfyrwyr 16-19, ond hefyd i oedolion ôl-19 sydd yn ceisio cael mynediad at addysg neu hyfforddiant.

- 3.3. Cred UCAC dylai teithio i addysg 16-19 oed fod am ddim (i ysgolion a Cholegau Addysg Bellach). Mae problemau cludiant yn rhwystr i addysg. Yn sgil toriadau difrifol i gyllidebau Awdurdodau Lleol, mae gwasanaethau anstatudol yn cael eu targedu. Un o'r rhain yw cludiant am ddim, neu gludiant gostyngol i bobl ifanc 16-19 oed. Mae UCAC o'r farn y byddai torri ar y gwariant hwn yn golygu y byddai teithio i gael addysg neu hyfforddiant ôl-16 yn rhy ddrud i lawer o bobl ifainc a'u teuluoedd. Byddai'r effaith fwyaf yn debygol o fod ar y rheiny sy'n byw mewn tlodi, gan gynyddu'r tebygolrwydd - sydd eisoes yn uchel - y byddant yn eithrio'u hunain o hyfforddiant neu addysg bellach ac yn dod yn 'NEET', gyda'r holl broblemau sy'n dod yn sgil hynny o ran cyflogadwyedd a sgiliau bywyd.
- 3.4. Mae'n ymddangos bod llawer o bwysau, hefyd, ar brifysgolion i uno - mae'n debygol er mwyn gwneud arbedion arian a bod yn fwy cost -effeithiol - ond gallai hyn greu problemau / heriau o ran cael mynediad at gyrsiau. Gall hyn fod yn arbennig o heriol mewn achos cyrsiau fel Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon, pan fydd cwrs TAR pwnc arbennig ond ar gael mewn lleoliad pell o adre. Mae hyn yn fwyaf anodd efallai i fyfyrwyr aeddfed sydd yn dymuno hyfforddi yn y maes.

#### 4. Perthynas rhwng AB ac AU (cynnwys addysg cyfrwng Cymraeg)

- 4.1. Mae datblygu'r berthynas hon yn beth positif. Gall roi cyfleoedd am brentisiaethau mewn meysydd arbenigedd amrywiol ac ar amrywiaeth o lefelau.
- 4.2. Mae un maes arbennig y byddai UCAC yn hoffi gweld yn datblygu ymhellach, sef y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y ddwy sector. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi sicrhau camau sylweddol ymlaen o ran darpariaeth addysg uwch. Erbyn hyn mae sefydlu'r coleg wedi sicrhau datblygu 118 o swyddi staff academiaidd cyfrwng Gymraeg. Mae'n holl bwysig bod y swyddi hyn yn parhau a bod y CCC nawr yn gallu datblygu darpariaeth mewn pynciau / meysydd eraill.
- 4.3. Mae'n bwysig bod y Prifysgolion nawr yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y swyddi wrth iddynt aeddfedi (h.y. ar ôl 5 mlynedd o fodolaeth y swydd) a bod Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cael ei normaleiddio o fewn y sector Addysg Uwch. Fel hyn bydd modd i'r CCC ganolbwyntio ar ehangu ar y ddarpariaeth bresennol yn hytrach na threulio'i hegni yn amddiffyn y *status quo*.
- 4.4. Y mae amrywiaeth barn am y posibilrwydd o ymestyn gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i faes Addysg Bellach. Byddai'n un ffordd o sicrhau bod gallu'r Colegau Addysg Bellach i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg yn datblygu. Mae rhai o'r 118 o swyddi academiaidd a nodir uchod yn Addysg Uwch â chysylltiad ag Addysg Bellach (e.e. er mwyn darparu graddau sylfaen).
- 4.5. Mae gan y CCC, erbyn hyn, arbenigedd a phrofiad eang byddai o ddefnydd wrth ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector Addysg Bellach ac mae cyd-memorandwm lefel uchel yn bodoli rhwng Colegau Cymru â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- 4.6. Mae rhai anawsterau amlwg, e.e. y gagendor rhwng y sefydliadau Addysg Bellach eu hunain - amrywiaeth a'r nifer o gyrsiau a staff. Byddai hefyd angen ystyried y berthynas rhwng yr Hyrwyddwyr Dwyieithog, Sgiliaith, ac ati, yn y Colegau â'r CCC. Mae rhai prifysgolion, hefyd, yn gwrthwynebu'r syniad.
- 4.7. Mae datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector Addysg Bellach yn bwysig dros ben i sicrhau llwybrau dilyniant i bobl ifanc a gweithlu sydd yn rhugl ddwyieithog ar gyfer economi Cymru. Cred UCAC ei fod yn werth ystyried y dadleuon o blaid ac yn erbyn o ddifrif.
- 4.8. Mae cyflogwyr yn tybio nad oes digon o weithwyr rhugl dwyieithog i gyflawni eu hanghenion ac mae meysydd hyfforddiant amlwg yn y Sector Addysg Bellach sydd yn paratoi gweithwyr ar gyfer sectorau penodol sydd angen gweithlu cyfrwng Cymraeg - gweithlu addysg (e.e. Cynorthwywyr dosbarth, gweithwyr swyddfa, staff coginio, ac ati); gofal plant; gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol; gweithlu lletygarwch- twristiaeth a hamdden; gweithwyr ieuencid; busnes a mentergarwch; y meysydd creadigol; amaeth-fwyd *agri-food*, ac ati).

- 4.9. Mewn adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth "Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector," Ymchwil Gymdeithasol rhif 47/2014, nodir ffrwyth ymchwil yn seiliedig ar 4,000 o gyflogwyr yng Nghymru. Er mai'r sector Gofal oedd yn dod uchaf o ran y pwysigrwydd o weithlu gyda sgiliau Cymraeg roedd 1,524 o'r cyflogwyr oll o'r farn byddai gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn eu busnes yn fanteisiol iddyn nhw. Y meysydd dan sylw oedd: Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, Creadigol, Lletygarwch, Cyllid, Manwerthu, Amaeth-fwyd (Agrifood), Adeiladwaith.
- O'r holl gyflogwyr roedd 35% yn ystyried cael gweithwyr gyda sgiliau iaith Gymraeg yn eu sefydliad yn bwysig. Roedd ychydig dan dreian o'r cyflogwyr sector breifat o'r farn bod hyn yn gwneud gwahaniaeth iddynt o ran elw.
  - Roedd 28% o'r cyflogwyr o'r farn byddai o fudd i gael mwy o weithwyr gyda'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg neu gyda lefel uwch o sgiliau Cymraeg.
  - Roed 10% o'r cyflogwyr wedi hysbysebu swyddi o fewn y 12 mis cynt gyda'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg o leiaf yn ddymunol.
  - Roedd 4% ohonynt wedi naill ai trefnu neu dalu am hyfforddiant i ddatblygu'r sgiliau hyn yn ystod y 12 mis cynt.
  - Roedd 4% wedi chwilio am gyngor am sut i ddatblygu'r sgiliau hyn ac o'r rhai nad oedd wedi chwilio am gyngor roedd 45% yn nodi'r ffaith nad oeddent yn ymwybodol ble i chwilio am wybodaeth fel y rheswm.
  - Roedd 7% o'r sefydliadau yn disgwyl i'r angen i wella sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu i godi o fewn y 2-3 blynedd nesaf (roedd hyn yn uwch gyda chyflogwyr ym meysydd Gofal Plant 28%, Gofal Cymdeithasol 15%, Creadigol 12% a Lletygarwch 10%).
- 4.10. Mae diddordeb amlwg gan gyflogwyr sector breifat a sector gyhoeddus sydd yn gweld manteision a phwysigrwydd datblygu sgiliau eu gweithlu. Mae angen mynd ati ar frys i wella cyfleoedd yn y colegau addysg bellach ar gyfer astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, i ateb gofynion y sectorau perthnasol am gyrsiau addas ar gyfer y gweithlu presennol hefyd ac i wella darpariaeth ar gyfer y Gymraeg fel sgil mewn ysgolion a cholegau addysg bellach.
- 4.11. Byddai rhaid cael pot o arian ychwanegol ar gyfer datblygu gwaith y CCC yn y sector Addysg Bellach. Byddai'n amhosib cyflawni mwy gyda'r arian presennol.

## 5. Gwaith ymchwil

- 5.1. Mae angen datblygu cyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil yng Nghymru. Mae enghreifftiau o ymchwil arbennig i'w cael ond mae angen bod yn strategol ac ystyried cyfleoedd ar gyfer ymchwil bydd yn cyfrannu ar lwyfan rhyngwladol a hefyd ymchwil bydd o bwys i ni yng Nghymru, e.e. nid oes digon o ymchwil ar Addysg yng Nghymru i gefnogi maes Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a Datblygiad Proffesiynol Parhaus Athrawon.
- 5.2. Mae hefyd prinder cymharol o ymchwil sydd yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg.

## 6. Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

- 6.1. Mae gan Lywodraeth Cymru fformiwla ar gyfer cynllunio niferoedd o lefydd ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon (TSDM) ond ym marn UCAC mae'r Model yma'n ddiffygiol e.e. nid yw'n caniatáu i ni gynllunio ar gyfer y niferoedd o athrawon cyfrwng Cymraeg sydd angen ar gyfer y gweithlu addysg.
- 6.2. Mae adroddiad yr Athro Furlong "*Addysgu Athrawon Yfory*" yn dangos y problemau sydd yn bodoli yn y Prifysgolion o ran darparu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Mae problemau yn sgil

ceisio lleihau'r nifer o sefydliadau oedd yn darparu cyrsiau penodol ymhlith yr heriau a nodir yn yr adroddiad.

## **7. Sicrhau ansawdd**

- 7.1. Mae Estyn yn chwarae rôl mewn arolygu Addysg Bellach, cyrsiau Addysg Oedolion a ddarperir gan yr Awdurdodau Lleol a chysiau HCA yn Addysg Uwch. Gellir dadlau bod lle i sicrhau trefniadau mwy cyson o ran trosolwg o weithgaredd yr amryw sefydliadau a chyrff sydd yn ymwneud ag addysg ôl-16. Un peth sydd yn sicr, os oes ystyriaeth i gysoni trefniadau, ni ddylai fod newidiadau o ran y trefniadau arolygu addysg ôl-16 mewn ysgolion. Ni ddylai ysgolion orfod cael proses arolygu gwahanol ar gyfer addysg cyn ac ôl-16.
- 7.2. Mae lle i ddadlau bod anfodlonrwydd mai Estyn sydd yn arolygu yn y Sector Addysg Bellach - gyda theimlad bod diffyg dealltwriaeth a phrofiad o weithio yn y sector gan arolygwyr Estyn yn gyffredinol. Mae hysbysebion diweddar wedi nodi'r angen i arolygwyr Addysg Bellach fod yn athrawon cymwysedig ond dim cyfeiriad at brofiad neu gymhwyster addysg bellach. Nid yw hyn yn hybu hygredd Estyn yn y sector.
- 7.3. Ar y cyfan mae'n ymddangos bod QAA yn gwneud gwaith da o ran sicrhau ansawdd yn y sector addysg uwch yn gyffredinol.

## **8. Swyddogaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**

- 8.1. Mae arian ar gyfer cyrsiau HCA nawr yn nwylo'r Llywodraeth ac rydym yn disgwyl datganiad cabinet am arian cyrsiau meddygaeth.
- 8.2. Mae'n ymddangos bod HEFCW'n gweithio'n ddigon proffesiynol a llwyddiannus. Er bod dadl efallai i ymestyn cylch gorchwyl HEFCW i ariannu Addysg Bellach mae UCAC yn awyddus i sicrhau bod y Colegau Addysg Bellach a'r ysgolion sydd â disgyblion ôl-16 yn cael pob tegwch o ran cyllido.

## **UCAC Tachwedd 2015**



**UCAC**  
Undeb  
Cenedlaethol  
Athrawon  
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | [ucac@ucac.cymru](mailto:ucac@ucac.cymru)

 [facebook.com/AthrawonCymru](https://facebook.com/AthrawonCymru)  [twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

[www.ucac.cymru](http://www.ucac.cymru)